## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (TREFECHAN, ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, yn Aberystwyth, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar hyd y darn o gefnffordd yr A487 a elwir hefyd yn Ffordd Penparcau, sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Gerddi Rheidol i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 360 i fetrau hyd at y ffordd ddynesu ddeheuol i Bont Trefechan yn Nhrefechan, Aberystwyth.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de-ddwyrain y bydd cau'r ffordd yn effeithio arnynt fydd mynd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd Dan Dre, Ffordd Alexandra i Ffordd y Môr, yna parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd Rhodfa'r Gogledd, Stryd y Dollborth i Coopers Corner, yna i gyfeiriad y de-ddwyrain ar hyd yr A44 Ffordd Llanbadarn ac yna i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd yr A4120 Heol y Bont i ailymuno â'r A487.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd-orllewin y bydd cau'r ffordd yn effeithio arnynt fydd mynd tua'r de-ddwyrain ar hyd Ffordd Penparcau, yna i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd yr A4120 Heol y Bont, yna i gyfeiriad y gogledd-orllewin ar hyd yr A44 Ffordd Llanbadarn i Coopers Corner ac yna i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd Stryd y Dollborth, Stryd Thespis, Ffordd Alexandra a Dan Dre i ailymuno â'r A487.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (rhwng 19:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) o 4 Mawrth 2024 hyd 8 Mawrth 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

## THE A487 TRUNK ROAD (TREFECHAN, ABERYSTWYTH, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Aberyswyth, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A487 trunk road also known as Penparcau Road, that extends from a point 100 metres south-east of the centre-point of its junction with Gerddi Rheidol in a north-westerly direction for a distance of 360 metres to the southern approach to Trefechan Bridge at Trefechan, Aberystwyth.

The alternative route for south-eastbound vehicles affected by the closure will be to proceed in a north-easterly direction along Mill Street, Alexandra Road onto Terrace Road, then continue in a north-easterly direction along North Parade, Northgate Street to Coopers Corner, then in a south-easterly direction along the A44 Llanbadarn Road and then in a south-westerly direction along the A4120 Heol y Bont to rejoin the A487.

The alternative route for north-westbound vehicles affected by the closure will be to proceed south-eastbound along Penparcau Road, then in a north-easterly direction along the A4120 Heol y Bont, then in a north-westerly direction along the A44 Llanbadarn Road to Coopers Corner and then in a south-westerly direction along Northgate Street, Thespian Street, Alexandra Road and Mill Street to re-join the A487.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate intermittently overnight (19:00 hours to 06:00 hours) from 4 March 2024 until 8 March 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government